

PWYLLGOR TRWYDDEDU DIOGELWCH CYHOEDDUS

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 16 Rhagfyr, 2021.

Mae'r Agenda ar gael [yma](#). [Insert link]

Yn Bresennol: Y Cynghorydd J.W. Thomas (Cadeirydd); Cynghorydd P. Drake (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr J. Aviet, R. Crowley, V.P. Driscoll, R. Nugent-Finn K.F. McCaffer, A. Moore, J.M. Norman a M.R. Wilkinson.

EITEM AGENDA 2. YMDDIHEURIAD AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd hwn gan y Cynghorydd J.E. Charles.

EITEM AGENDA 3. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 16 Tachwedd, 2021 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 4. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD –

PENDERFYNWYD – O dan Adran 100A (4) o'r Ddeddf Llywodraeth Leol 1972, bod y wasg a'r cyhoedd yn cael eu heithrio o'r cyfarfod ar gyfer yr eitemau busnes canlynol ar y sail eu bod yn cynnwys datgelu gwybodaeth eithriedig yn ôl pob tebyg fel y'i diffinnir yn Rhan 4 o'r Atodlen 12A (fel y'i diwygiwyd) o'r Ddeddf, y cyfeirir at baragraffau perthnasol yr Atodlen mewn cromfachau ar ôl y pennawd munud.

EITEM AGENDA 5. ADRODDIAD AR GYFER NODI GYRWYR Z (CAT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

PENDERFYNWYD - BOD yr adroddiad yn cael ei nodi a llythyr yn cael ei anfon at Z yn eu hatgoffa o'u dyletswyddau o dan eu Trwyddedau Gyrwyr Cerbydau Hacni a Cherbydau Hurio Preifat.

Rheswm dros y penderfyniad

Gan ystyried cynnwys yr adroddiad a'r trafodaethau yn y cyfarfod.

EITEM AGENDA 6. GWRANDAWIAD DISGYBLU AR GYFER GYRWYR PRESENNOL ES (CAT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

PENDERFYNWYD - BOD Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Bro Morgannwg ES yn cael ei dirymu ar unwaith.

Rheswm dros y penderfyniad

Yn unol â'r Canllawiau a fabwysiadwyd ar Bennu Addaswydd Ymgeiswyr a Thrwyddedigion yn y Fasnach Hacni a Hurio Preifat, nid oedd yr Aelodau'n fodlon bod ES yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Cerbydau Hacni a Hurio Preifat Cyngor Bro Morgannwg. Nid oedd yr Aelodau ychwaith yn fodlon y gallai ES weithredu'n onest a dangos ymddygiad yn gweddu i'r ymddiriedaeth y byddai'r Cyngor ei hangen ynddynt wrth weithredu fel gyrrwr tacsï ac na ellid bod yn fodlon na fyddai'r cyhoedd yn cael eu rhoi mewn niwed. Gan ystyried y prawf o ran ffitrwydd a priodoldeb fel yr amlinellwyd gan y Swyddog Cyfreithiol, mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch gosod aelodau o'u teulu eu hunain mewn tacsï gydag ES a mynegon nhw bryderon difrifol am ES yn cefnogi teithwyr agored i niwed yn eu rôl fel gyrrwr tacsï. Roedd hyn oherwydd bod ES wedi bod yn rhan o achos troseddol difrifol a oedd wedi cynnwys anonestrwydd a chamfanteisio ar ddiodefwr agored i niwed.

Dywedwyd wrth ES fod ganddynt hawl i apelio i Lys Ynadon Caerdydd yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor o fewn 21 diwrnod ac y dylent ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol os oedd ganddynt unrhyw amheuaeth ynghylch eu hawliau cyfreithiol a/neu eu cyfrifoldebau.

AGENDA ITEM 7. GWRANDAWIAD DISGYBLU AR GYFER GYRRWR PRESENNOL KS (CAT) (GWYBODAETH EITHRIEDIG – PARAGRAFFAU 12, 13 A 14) –

PENDERFYNWYD - BOD Trwydded Gyrrwr Cerbyd Hacni a Cherbydau Hurio Preifat Bro Morgannwg KS yn cael ei dirymu ar unwaith.

Rheswm dros y penderfyniad

Yn unol â'r Canllawiau a fabwysiadwyd ar Bennu Addaswydd Ymgeiswyr a Thrwyddedigion yn y Fasnach Hacni a Hurio Preifat, nid oedd yr Aelodau'n fodlon bod KS yn parhau i fod yn berson addas a phriodol i ddal Trwydded Cerbydau Hacni a Hurio Preifat Cyngor Bro Morgannwg. Nid oedd yr Aelodau ychwaith yn fodlon y gallai KS weithredu'n onest a dangos ymddygiad yn gweddu i'r ymddiriedaeth y byddai'r Cyngor ei hangen ynddynt wrth weithredu fel gyrrwr tacsï ac na ellid bod yn fodlon na fyddai'r cyhoedd yn cael eu rhoi mewn niwed. Gan ystyried y prawf o ran ffitrwydd a priodoldeb fel yr amlinellwyd gan y Swyddog Cyfreithiol, mynegodd yr Aelodau bryder ynghylch gosod aelodau o'u teulu eu hunain mewn tacsï gydag KS a mynegon nhw bryderon difrifol am KS yn cefnogi teithwyr agored i niwed yn eu rôl fel gyrrwr tacsï. Roedd hyn oherwydd bod KS wedi bod yn rhan o achos troseddol

difrifol a oedd wedi cynnwys anonestrwydd a chamfanteisio ar ddioddefwyr agored i niwed.

Dywedwyd wrth KS fod ganddynt hawl i apelio i Lys Ynadon Caerdydd yn erbyn penderfyniad y Pwyllgor o fewn 21 diwrnod ac y dylent ofyn am gyngor cyfreithiol annibynnol os oedd ganddynt unrhyw amheuaeth ynghylch eu hawliau cyfreithiol a/neu eu cyfrifoldebau.